# DAVIES, WILLIAM HENRY (1871 - 1940), bardd ac awdur

**Enw:** William Henry Davies
**Dyddiad geni:** 1871
**Dyddiad marw:** 1940
**Priod:** Helen Davies (née Payne)
**Rhiant:** Mary Ann Davies
**Rhiant:** Francis Boase Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** Lawrence William Hockey

Ganwyd 3 Gorffennaf 1871 yn Pilgwenlly, Casnewydd-ar-Wysg, mab Francis Boase Davies, mowldiwr haearn, Casnewydd-ar-Wysg, a'i wraig Mary Ann. Aeth i'r ysgol elfennol, a thra yr oedd yno datblygodd ei ddiddordeb mewn barddoniaeth. Wedi gorffen ei brentisiaeth fel cerfiwr a goreurwr, aeth ar dramp yn U.D.A. a Chanada, a chollodd ei droed wrth geisio neidio ar drên ym mis Mawrth 1899. Dychwelodd i Loegr a phenderfynu llwyddo fel bardd. Ar ôl llawer o anawsterau a siomedigaethau, cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, *The Soul's Destroyer and Other Poems*, ym mis Mawrth 1905. Dilynwyd hwn gan eraill; erbyn 1911 yr oedd yn fardd a llenor cydnabyddedig, yn awdur wyth o lyfrau, ac yn cael blwydd-dâl o restr sifil y Llywodraeth. Priododd Helen Payne yn 1923. Yn 1929, yn rhinwedd ei wasanaeth i lên, rhoddwyd iddo radd D.Litt., er anrhydedd, gan Brifysgol Cymru. Pan fu farw yn Nailsworth, swydd Gaerloyw, 26 Medi 1940, yr oedd yn awdur tua 50 o lyfrau.

## Awdur

**Lawrence William Hockey**

## Ffynonellau

Erthyglau yn *The Welsh Review*, 1946, 1948

*South Wales Argus*, 21 a 22 Medi 1938 a 11 Hydref 1946

Thomas Moult, *W. H. Davies* (Llundain 1934) (ond bod rhai camgymeriadau yn y gwaith hwn)

## Darllen Pellach

LlGC: Llawysgrifau W H Davies

Erthygl Wicipedia: W. H. Davies

## Delweddau

William Rothenstein, W. H. Davies

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW MS 23960B: 'Leisure' by W. H. Davies

Archifau LlGC: NLW MS 23875B: A Boy's Sorrow by W. H. Davies

Archifau LlGC: W. H. Davies manuscripts

Archifau LlGC: NLW MS 21629B: Holograph poems by W.H. Davies

Archifau LlGC: NLW MS 19408C: Two holograph poems by W. H. Davies: 'Molly' and 'The Force of Love'; two autograph letters; and a review of W. H. Davies's poetry by Herbert Edward Palmer

Archifau LlGC: NLW MS 16571B: W. H. Davies: Forty New Poems, with autograph postcard

Archifau LlGC: NLW MS 18432A: Two poems by W. H. Davies

Archifau LlGC: NLW MS 23806D: W. H. Davies letters

Archifau LlGC: NLW MS 22003E: Letters of Anglo-Welsh writers

Archifau LlGC: NLW MS 23699E, ff. 60-65: W. H. Davies letters

Archifau LlGC: NLW MS 23807E: Letters relating to W. H. Davies

VIAF: 76333044

Wikidata: Q985138

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu